

AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL

10 Awst 2016

Yn Bresennol: Cynghorydd M James (Cadeirydd)

Mr A Archer, Mr D Ellis, Cynghorydd P Harries, Mrs G Hayward, Cynghorydd L Jenkins, Cynghorydd R Kilmister, Cynghorydd RM Lewis, Cynghorydd PJ Morgan, Cynghorydd R Owens, Cynghorydd D Rees, Mr AE Sangster, Cynghorydd A Wilcox a'r Cynghorydd M Williams.

Roedd Ms K Maddock-Jones, oedd yn cymryd rhan yng nghynllun Mentora yr Awdurdod, hefyd yn bresennol.

(Swyddfa APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 10.00am – 11.20am)

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriad am fod yn absennol oddi wrth y Cynghorydd ML Evans, Ms C Gwyther, Cynghorydd S Hudson a Mrs M Thomas,

2. Datgan Buddiannau

Gwnaeth Mr A Archer ddatganiad o fuddiant personol ynghylch adroddiad 37/16, Adroddiad ISA260, i'r rhai sy'n gyfrifol am Lywodraethu (Cofnod 6), a'r Cynghorydd D Rees ynghylch adroddiad 43/16 Cynllun Tanddaearu ym Mhorth-gain (Cofnod 12). Roedd y ddau wedi aros a chymryd rhan yn y trafodaethau ar yr adroddiadau dan sylw.

Derbyniwyd datganiad o fuddiant rhagfarnus oddi wrth y Cynghorydd L Jenkins ynghylch adroddiad 44/16 Cytundeb Creu Llwybr Cyhoeddus yn Solfach (*gweler Cofnod 13*), a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

3. Cofnodion

Cyflwynwyd cofnodion y Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol a'r Cyfarfod Cyffredin a gynhaliwyd ar y 15^{fed} o Fehefin 2016 i'w cadarnhau a'u llofnodi.

PENDERFYNWYD cadarnhau a llofnodi cofnodion y Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol a'r Cyfarfod Cyffredin a gynhaliwyd ar y 15^{fed} o Fehefin 2016.

4. Materion yn codi o'r cofnodion:

Nid oedd unrhyw faterion wedi codi.

5. Adroddiadau o amrywiol gyfarfodydd Pwyllgorau'r Awdurdod

Cyflwynwyd yr adroddiadau canlynol o gyfarfodydd sawl un o Bwyllgorau'r Awdurdod gerbron yr Aelodau i'w hystyried/er gwybodaeth:



- (i) Pwyllgorau Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 8 Mehefin 2016 ac ar 15 Mehefin 2016
- (ii) Panel Adolygu Perfformiad y Prif Weithredwr a gynhaliwyd ar 25 Mai 2016
- (iii) Pwyllgor Adolygu Gweithredol a gynhaliwyd ar 29 Mehefin 2016

6. Adroddiad ISA260 i'r rhai sy'n Gyfrifol am Lywodraethu

Dywedodd y Rheolwr Cyllid na fu'n bosibl i Swyddfa Archwilio Cymru fod yn bresennol yn y cyfarfod y diwrnod hwnnw. Serch hynny, roeddent wedi cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol ar 27 Gorffennaf. Aeth rhagddo i egluro bod Adroddiad ISA260 yn rhoi barn ynghylch a yw'r datganiadau ariannol wedi rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol yr Awdurdod ar 31 Mawrth 2016 ac o'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny. Wrth gynnal yr archwiliad, roedd Swyddfa Archwilio Cymru wedi mabwysiadu'r cysyniad o berthnasedd, gan geisio clustnodi camddatganiadau perthnasol a allai arwain at gamarwain darlennydd y cyfrifon.

Bwriad yr Archwilydd Cyffredinol oedd cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar y datganiadau ariannol. Nid oedd unrhyw gamddatganiadau perthnasol a glustnodwyd yn y datganiadau ariannol oedd yn parhau heb eu cywiro. Fodd bynnag, roedd un datganiad sylweddol a nifer o ddatganiadau ansylweddol oedd wedi eu cywiro. Roedd yr addasiad sylweddol yn ymwneud â gostyngiad yng ngwerth eiddo, peiriannau a chyfarpar oherwydd gwall mewn ymarferiad prisio gan fod y prisiwr, Cyngor Sir Caerfyrddin, wedi cynnwys costau cyllid wrth brisio asedau na ddylai fod wedi eu cynnwys. Hefyd, bu rhai addasiadau o ran cyflwyno. Nid oedd unrhyw bryderon ynghylch naill ai'r agweddau ansoddol neu feintiol o'r cyfrifon ac nid oedd unrhyw feysydd pellach oedd angen eu dwyn i sylw'r Awdurdod.

Diolchodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol i'r Rheolwr Cyllid a'i dîm am y modd yr oedd y cyfrifon wedi cael eu paratoi ac am yr adroddiad da a gafwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru. Hefyd roedd yn falch bod y ffi a godir eleni wedi'i gostwng gan fod yr Awdurdod wedi codi'r mater sawl gwaith bod angen llai o waith i archwilio Awdurdod Parc Cenedlaethol o'i gymharu ag Awdurdod Lleol.

Gan droi at y cyfrifon, gofynnodd yr Aelodau nifer o gwestiynau a atebwyd gan y Rheolwr Cyllid, sef bod yr Awdurdod wedi cymryd mantais o fuddsoddi swm o arian am gyfnod o 12 mis ar gyfradd llog da oedd wedi arwain at gynnydd mewn incwm buddsoddi; bod y gostyngiad mewn gwerthiant yn Oriel y Parc i'w briodoli, yn rhannol o leiaf, i werthu mwy o nwyddau oedd yn gysylltiedig ag Arddangosfa Syr Peter Blake yn 2014/15; a bod y cynnydd mewn credydwy'r tymor byr yn ganlyniad i brynu stoc ar gyfer y Pasg oedd wedi disgyn mewn gwerth ddiwedd mis



Mawrth 2016. Gofynnodd y Cadeirydd i'r Rheolwr Cyllid gyfleu diolch yr Aelodau i'w dîm am eu holl waith.

PENDERFYNWYD:

- a) derbyn Adroddiad ISA260 i'r rhai sy'n Gyfrifol am Lywodraethu; a
- b) chymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon 2015/16.

Yna llofnododd y Cadeirydd, y Prif Weithredwr a'r Prif Swyddog Ariannol y dogfennau.

[Nid oedd y Cynghorydd L Jenkins yn bresennol ar gyfer y bleidlais ar yr adroddiad canlynol.]

7. Cronfeydd Wrth Gefn ar gyfer y Prosiectau Llwybrau a Rhywogaethau Goresgynnol

Roedd adroddiad y Rheolwr Cyllid yn gofyn am gymeradwyaeth i greu cronfa wrth gefn i dalu am arian cyfatebol yr Awdurdod ar gyfer y prosiectau Llwybrau a Pwyth mewn Pryd. Byddai'r arian yn dod o'r Gronfa Gyffredinol Wrth Gefn, oedd â £702,000 mewn llaw ddiwedd y flwyddyn ariannol ddiwethaf.

Dywedwyd mai nod y Prosiect Llwybrau oedd galluogi cynyddu defnydd parhaus o'r awyr agored, ac yn arbennig yn y Parc Cenedlaethol, ymhlith cymunedau difreintiedig yn Sir Benfro, gan gynnig amrywiaeth o fuddiannau a gwell canlyniadau i'r rhai sy'n cymryd rhan, gan ganolbwyntio'n benodol ar iechyd a lles. Roedd yr Awdurdod yn bwriadu cyfrannu £34,500, sef £11,500 y flwyddyn o Ionawr 2017 am dair blynedd i ariannu cyflogi Cydlynnydd y Prosiect am ddau ddiwrnod ychwanegol yr wythnos i ganolbwyntio ar ddatblygu gwaith yr Awdurdod ar wirfoddoli ac ymgysylltu.

Hefyd atgoffwyd yr Aelodau bod cais cychwynnol wedi'i wneud i Gronfa Dreftadaeth y Loteri ar gyfer prosiect Pwyth mewn Pryd dros 5 mlynedd. Byddai'r prosiect yn parhau'r gwaith sydd eisoes wedi'i wneud o dan brosiect llwyddiannus Cronfa Datblygu Cynaliadwy yng Nghwm Gwaun ac yn gyfle i ymestyn y gwaith hwn i mewn i ddalgylch Nanhyfer. Gan weithio o'r ffynhonnell i'r môr, byddai'r prosiect yn gweithio mewn partneriaeth â gwirfoddolwyr, tîrfeddiannwyr, aelodau'r gymuned a chyrrff statudol i weithredu dull cydlynol o weithio fesul dalgylch i fapio, rheoli a gwaredu rhywogaethau anffrodorol goresgynnol Clymog Japan, rhododendron a Jac y Neidiwr yng Nghwm Gwaun ac is-ddalgylchoedd pen uchaf Dyffryn Nanhyfer. Roedd y cais am arian Loteri yn broses dau gam, a disgwyli'r penderfyniad ar gais Cam 1 erbyn diwedd mis Medi. Os yw'r cais yn llwyddiannus, byddai'r prosiect 5 mlynedd yn cychwyn fis Mai 2018.



Roedd yr Aelodau yn croesawu'r ddau brosiect, gan nodi bod y Pwyllgor Adolygu Gweithredol wedi derbyn cyflwyniad ardderchog yn ddiweddar ar y prosiect Pwyth mewn Pryd oedd, yn eu barn hwy, yn brosiect gwerth chweil go iawn.

PENDERFYNWYD cymeradwyo creu dwy gronfa wrth gefn o arian cyfatebol a glustnodir ar gyfer y Prosiect Llwybrau (£34,500) a'r Prosiect Pwyth mewn Pryd (£25,000).

8. Cynllun Datblygu Lleol: Safleoedd Ymgeisiol

Atgoffwyd yr Aelodau bod rhaid i unrhyw un sy'n dymuno i safle gael ei ystyried ar gyfer ei gynnwys yn y Cynllun, fel rhan o adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol, gyflwyno'r safle hwnnw fel rhan o'r broses o gyflwyno safleoedd ymgeisiol. Gofynnwyd am gymeradwyaeth i dair dogfen - Methodoleg Safleoedd Ymgeisiol oedd yn nodi sut fyddai'r Awdurdod yn asesu'r safleoedd, ffurflen cyflwyno Safleoedd Ymgeisiol, a'r canllawiau i gynorthwyo ymgeiswyr lenwi'r ffurflen. Roedd pob un o'r dogfennau hyn eisoes wedi'u dosbarthu i'r Aelodau a'u trafod mewn Gweithdy yn gynharach yn y flwyddyn. Hefyd roedd y dogfennau yn destun ymgynghori â Chynghorau Tref a Chymuned, Cyfoeth Naturiol Cymru, Dŵr Cymru a rhanddeiliaid allweddol perthnasol. Roedd sylwadau a dderbyniwyd o ganlyniad i'r ymgynghori, ynghyd ag ymateb arfaethedig y swyddogion, ynghlwm wrth yr adroddiad. Nid oedd hyn yn newid yn sylfaenol y drafftiau a ddosbarthwyd yn flaenorol, ond yn rhoi mwy o eglurder a chanllawiau pellach i'r rhai oedd yn cyflwyno safleoedd.

Dywedwyd y byddai'r gwahoddiad i gyflwyno Safleoedd Ymgeisiol yn cael ei wneud cyn gynted ag oedd yn ymarferol ar ôl cymeradwyo'r dogfennau, ac yn rhedeg tan ddiwedd mis Tachwedd 2016. Byddai'r dogfennau yn cael eu cyhoeddi ar wefan yr Awdurdod, a llythyrau yn cael eu hanfon at bawb ar restr bostio'r Cynllun Datblygu Lleol i roi gwybod bod y dogfennau hyn ar gael. Byddai hysbysiad cyhoeddus hefyd yn cael ei gyhoeddi yn y wasg.

Gan gyfeirio at Asesu'r Safleoedd Ymgeisiol (Atodiad D), roedd rhai Aelodau'n bryderus y byddai safleoedd yn parhau i gael eu hasesu yn erbyn eu hagosrwydd penodol at gludiant cyhoeddus pan oedd hyn yn faes polisi yr oedd yr Aelodau yn dymuno ei adolygu. Cytunodd y swyddog i ddileu'r cyfeiriad at 'o fewn 1km' yn y cwestiwn oedd yn ymwneud ag agosrwydd safleoedd at gludiant cyhoeddus yn yr asesiad. O ran Atodiad E, roedd un Aelod yn bryderus y byddai pob dyraniad presennol yn y Cynllun Datblygu sydd heb eu datblygu hyd yn hyn yn cael eu hail-asesu, yn enwedig gan nad oedd llawer o debygolrwydd y byddai rhai ohonynt yn cael eu datblygu o gwbl. Atebodd y swyddog drwy ddweud o ystyried bod angen codi tai, y byddai'r safleoedd yn cael eu hail-asesu gan y gallai amgylchiadau fod wedi newid neu na fyddai unrhyw safleoedd eraill yn dod ymlaen. Byddai rhestr o'r safleoedd a



gyflwynwyd yn cael ei chyhoeddi fis Ebrill/Mai, er y byddai Cynghorau Tref a Chymuned yn cael gwybod am safleoedd yn eu hardal hwy cyn cyhoeddi'r rhestr. Nododd Aelod arall bod gwaith datblygu eisoes wedi cychwyn ar o leiaf un safle ar y rhestr, a chytunodd y swyddog i ddileu'r safle cyn cyhoeddi.

Roedd yr Aelodau yn cydnabod bod cyflwyno safleoedd ymgeisiol yn broses bwysig, ac roeddent yn falch bod y meini prawf ar gyfer asesu yn agored, ond yn ddigon trylwyr i annog cyflwyno safleoedd y gellid eu datblygu tra'n atal cynigion oedd yn fwy gwamal a hapfasnachol eu natur. Cytunwyd bod cyhoedduswydd yn allweddol fel bod gan bobl y cyfle i leisio'u barn. Diolchodd y Cadeirydd i'r tîm am eu holl waith hyd yn hyn.

PENDERFYNWYD:

- a) cymeradwyo Ymatebion y Swyddogion i'r sylwadau a dderbyniwyd ar y Ffurflen Cyflwyno Safleoedd Ymgeisiol, y Canllawiau a'r Fethodoleg;
- b) cymeradwyo'r Fethodoleg, y Ffurflen Cyflwyno Safleoedd Ymgeisiol, a'r Canllawiau oedd mewn atodiadau i'r adroddiad, yn amodol ar y diwygiadau y cytunwyd arnynt yn y cyfarfod.

9. Newidiadau i'r Cynllun Dirprwyo - Cynllunio

Roedd y Cyfarwyddwr Cynllunio yn gofyn am ddau newid i'r cynllun presennol o ddirprwyo materion cynllunio: Yn gyntaf, oherwydd newidiadau yn ddiweddar mewn personél, patrymau gwaith a theitlau swyddi, gofynnwyd am i 'lofnodi' penderfyniadau ac ati gael ei ddirprwyo i'r Prif Weithredwr (y Swyddog Parc Cenedlaethol), y Cyfarwyddwr oedd â chyfrifoldeb am Gynllunio, Arweinydd y Tîm Rheoli Datblygu a'r Pennaeth Cyfarwyddyd y Parc. Byddai'r cynnydd hwn o dri i bedwar swyddog yn galluogi i'r gwaith lifo'n effeithlon a lleihau unrhyw oedi posibl cyn llofnodi ceisiadau cynllunio.

Yr ail newid y gofynnwyd amdano oedd bod ceisiadau am ddiwygiadau ansylweddol a gyflwynwyd gan yr Awdurdod, neu lle bo'r tir yn eiddo i Aelod neu ei deulu agos neu i un o swyddogion yr Awdurdod, yn cael eu dirprwyo i'r swyddogion uchod. Eglurodd y Cyfarwyddwr y byddai'r egwyddor neu'r prif gais wedi cael ei benderfynu eisoes gan y Pwyllgor - a bod cyflawni amodau ar y cyfryw geisiadau eisoes wedi'i ddirprwyo. Roedd ymdrin â diwygiadau ansylweddol ond yn ychwanegu at y dirprwyo hwn o fân faterion i swyddogion.

Dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu bod y swyddog wedi trafod y newidiadau posibl hyn gydag ef a gyda'r Dirprwy Gadeirydd, a bod y ddau ohonynt yn hapus i'w cefnogi.



PENDERFYNWYD bod y cynllun dirprwyo ar gyfer cynllunio yn cael ei newid o ran llofnodwyr awdurdodedig a diwygiadau ansylweddol fel y nodir yn yr adroddiad.

10. Cynllunio - Canlyniadau Arolwg Cwsmeriaid

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Cynllunio ganlyniadau'r ail arolwg o farn cwsmeriaid ar faterion cynllunio, arolwg oedd wedi'i lunio gan DataUnit Cymru ac a ariannwyd gan Gymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru i alluogi dadansoddiad cymharol gael ei wneud ar draws pob un o'r 25 awdurdod cynllunio lleol yng Nghymru. Dangosodd yr arolwg bod adran gynllunio Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn sgorio'n gyson dda o gymharu â chyfartaledd Cymru, ac yn ddiddorol, yr Awdurdod oedd â'r ganran uchaf o gyfradd ymateb.

Roedd yr Aelodau yn falch iawn â'r canlyniadau, ond holwyd ynglŷn â'r 'cyngor cyson gan swyddogion'. Atebodd y swyddog drwy ddweud bod y swyddogion wedi dod yn llawer mwy gofalus wrth gynnig cyngor anffurfiol dros y ffôn, a bod pob ymateb i ymholiadau cyn-ymgeisio bellach yn cael eu gwneud yn ysgrifenedig gan wneud cysondeb yn haws i'w fonitro. Hefyd y gobaith oedd y byddai'r system rheoli dogfennau newydd yn golygu y gellir ymateb yn gyflymach a hyd yn oed yn fwy cyson eto fyth.

NODWYD.

11. Ymestyn tymor penodiad Aelodau Ymgynghorol Pwyllgor Cronfa Datblygu Cynaliadwy

Roedd adroddiad Gweinyddwr Cronfa Datblygu Cynaliadwy yn gofyn am gytundeb yr Aelodau i ymestyn tymor penodiad Aelodau Ymgynghorol presennol y Pwyllgor o ddeuddeg mis, a benodwyd fis Awst 2012 am gyfnod o bedair blynedd. Gofynnwyd am estyniad i ganiatáu gwneud adolygiad cynhwysfawr o Bolisi a Chanllawiau'r Gronfa cyn dewis aelodau newydd neu ailbenodi'r Aelodau Ymgynghorol, am gyfnod apwyntio i'w benderfynu gan yr Awdurdod yn dilyn yr adolygiad.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais i ymestyn y tymor pedair blynedd gyfredol o benodiad Aelodau Ymgynghorol y Pwyllgor Cronfa Datblygu Cynaliadwy am 12 mis arall, tra yr adolygir Polisi'r Gronfa.

12. Cynllun tanddaearu ym Mhorth-gain

Atgoffwyd yr Aelodau bod yr Awdurdod ers 2010 wedi llwyddo i gyflwyno saith cynllun gwella tirwedd dan gronfa Western Power Distribution i danddaearu'r adrannau hynny o'u rhwydwaith cyflenwi trydan uwchben y ddaear a ystyrid yn fwyaf niweidiol i nodweddion arbennig pedair o dirweddau gwarchoddedig yn ei ardal.

Roedd Porth-gain wedi'i glustnodi yn dirwedd adeiledig o ansawdd uchel iawn â hygyrchedd rhagorol. Dyma felly oedd y cynllun yr oedd yr



Awdurdod yn ei hyrwyddo fel yr wythfed cynllun a ffefrir, gan gynnig cyfle i waredu is-orsaf drydan fawr ar bolyn gyda'i rwydwaith trydan uwchben y ddaear dros bellter o rhyw 90m. Roedd effaith weledol negyddol yr is-orsaf hon a'i gwifrau uwchben a'r cynheiliaid cefn yn cael effaith weledol niweidiol sylweddol ar y pentrefwedd. Roedd y cynllun wedi'i gymeradwyo gan Banel Mentrau Tanddaearu Western Power, ac roedd y swyddogion o'r farn bod y cynllun arfaethedig yn gyfle rhagorol i gyflawni manteision gweledol parhaol o fewn un o leoliadau mwyaf eiconig y Parc Cenedlaethol drwy ddefnyddio 100% o arian allanol.

Pleser gan yr Aelodau oedd cefnogi'r cynllun, er iddynt nodi ardaloedd eraill yn y Parc Cenedlaethol allai gael budd o gynlluniau tebyg. Atebodd y swyddog bod gwaith i ddatblygu cynlluniau mewn lleoliadau eraill yn mynd rhagddo ond bod rhai yn fwy cymhleth nag eraill, oherwydd materion megis ystyriaethau perchnogaeth tir.

PENDERFYNWYD cymeradwyo barn y swyddogion fel y'i nodwyd yn yr adroddiad a'r papur meini prawf dewis, ac awdurdodi'r gwaith parhaus tuag at sicrhau cynllun tanddaearu ym Mhorth-gain cyn gynted ag sy'n rhesymol bosibl.

13. **Cytundeb Creu Llwybr Cyhoeddus yn Solfach**

Dywedodd y Rheolwr Mynediad a Hawliau Tramwy y gallai'r Awdurdod dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995, Iunio Cytundebau Creu Llwybr Cyhoeddus gyda thirfeddiannwyr er mwyn creu hawliau tramwy cyhoeddus newydd. O dan Gytundeb o'r fath gallai perchennog rhydd-ddaliad neilltuo hawl tramwy cyhoeddus, i'w gynnal a'i gadw ar draul cyhoeddus, lle bo'r awdurdod priffyrdd lleol neu Awdurdod Parc Cenedlaethol yn ystyried ei fod o fudd i'r cyhoedd. Roedd yr hawl i wneud Cytundebau Creu wedi'i ddirprwyo i swyddogion fis Chwefror 2000.

Yn yr achos hwn, roedd budd cyhoeddus amlwg i greu llwybr troed cyhoeddus yn Solfach. Bernid bod y llwybr troed yn ychwanegiad dymunol i'r rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus cyfagos a'r priffyrdd, yn gwella mynediad i gerddwyr rhwng Solfach Isaf a Felinganol drwy osgoi'r angen i gerdded ar hyd y ffordd am bellter sylweddol, a hefyd yn estyniad pleserus i'r rhwydwaith llwybrau lleol, gan agor golygfeydd eang o gefn gwlad a'r arfordir cyfagos.

Hefyd roedd y ddeddfwriaeth yn darparu ar gyfer talu iawndal i berchennog tir yn gyfnewid am gyflwyno hawl tramwy cyhoeddus. Roedd y tirfeddiannwr yn yr achos hwn yn Aelod o'r Awdurdod Parc Cenedlaethol, y Cynghorydd Lyn Jenkins, ac felly gofynnwyd am gymeradwyaeth yr Aelodau i dalu iawndal. Roedd yr Awdurdod, yn y gorffennol, wedi gofyn am arweiniad gan y Swyddfa Brisio yn benodol o ran y cyfraddau iawndal am greu llwybrau cyhoeddus er mwyn sicrhau tegwch a chysondeb. Gwnaed un taliad yn unig, fel iawndal llawn a



therfynol am gyflwyno hawl tramwy cyhoeddus, ar ôl cwblhau'r Cytundeb. Roedd y gost o greu'r llwybr cyhoeddus hwn yn Solfach, gan gynnwys talu iawndal o £2,000, wedi'i ariannu gan y rhaglen ariannu Cynllun Gwella Hawliau Tramwy.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r taliad o £2,000 o iawndal i berchennog y tir.

14. Archwiliad o Sgiliau Aelodau

Atgoffwyd yr Aelodau bod Archwilwyr Mewnol yr Awdurdod yn eu hadroddiad ar lywodraethu corfforaethol yn gynharach yn y flwyddyn, wedi argymhell y byddai'n fuddiol i'r Awdurdod wneud archwiliad o sgiliau'r Aelodau, gan glustnodi'r sgiliau a'r profiad fyddai'n ddymunol i'r Aelodau, ac asesu'r sgiliau a'r profiad oedd gan yr Aelodau i glustnodi unrhyw 'fylchau sgiliau' y gellir eu defnyddio i ddylanwadu ar benodi Aelodau yn y dyfodol. Dros y 18 mis nesaf, roedd disgwyl i'r Awdurdod gael nifer o Aelodau newydd a benodir gan Lywodraeth Cymru ac felly ystyrid ei bod yn amser da i gynnal y cyfryw archwiliad i glustnodi unrhyw fylchau sgiliau posibl y gellid eu llenwi yn ystod y broses benodi sydd ar fin digwydd.

Gwahoddwyd yr Aelodau i gyflwyno unrhyw sylwadau ar yr archwiliad drafft oedd ynghlwm i'r adroddiad cyn gynted â phosibl, er mwyn rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am y sgiliau a ddymunir cyn y rownd nesaf o benodi Aelodau. Awgrymodd y Prif Weithredwr y dylai'r archwiliad sgiliau gael ei gwblhau erbyn diwedd mis Medi. Byddai'r ffurflenni terfynol yn cael eu dosbarthu yn electronig i'r Aelodau eu llenwi cyn diwedd Awst.

PENDERFYNWYD cynnal archwiliad o sgiliau aelodaeth bresennol yr Awdurdod.

15. Aelodaeth y Pwyllgor Safonau

Atgoffwyd yr Aelodau bod aelodaeth y Pwyllgor Safonau wedi'i gadarnhau yn y Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol a gynhaliwyd ar y 15^{fed} o Fehefin 2016 fel y Cynghorydd R Kilmister, Cynghorydd R Owens, Mrs G Hayward, Mr R Barrett-Evans, Mrs V Tomlinson a Mrs J Wainwright. Fodd bynnag, gan fod Mrs Hayward wedi'i hethol yn Ddirprwy Gadeirydd yr Awdurdod nid oedd hi mwyach yn gymwys i wasanaethu ar y Pwyllgor Safonau. Felly, roedd angen penodi Aelod Llywodraeth Cymru arall yn ei lle.

PENDERFYNWYD penodi Mr A Archer i'r Pwyllgor Safonau yn lle Mrs G Hayward.

16. Aelodaeth Pwyllgorau

Yn y Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol a gynhaliwyd ar y 15^{fed} o Fehefin 2016, dywedwyd y byddai ystyried aelodaeth y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu, y Pwyllgor Cwynion a'r Pwyllgor Apeliadau yn cael ei



gadarnhau unwaith y byddai Cadeiryddion a Dirprwy Gadeiryddion yr Awdurdod a Phwyllgorau perthnasol eraill wedi'u penodi. Roedd y penodiadau angenrheidiol bellach wedi'u gwneud, ac argymhellwyd felly bod cyfansoddiad y Pwyllgorau a enwir uchod fel a ganlyn:

Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu

Cynghorydd M James, Cadeirydd yr Awdurdod Parc Cenedlaethol
Mr A P Archer, Dirprwy Gadeirydd Pwyllgor Archwilio ac Adolygu
Gwasanaethau Corfforaethol
Ms C Gwyther
Cynghorydd Mrs Lyn Jenkins
Cynghorydd A Wilcox

Pwyllgor Cwynion

Cynghorydd M Williams, Cadeirydd Pwyllgor Archwilio ac Adolygu
Gwasanaethau Corfforaethol
Cynghorydd R Owens, Dirprwy Gadeirydd Pwyllgor Rheoli
Datblygu
Cynghorydd PJ Morgan
Mr AE Sangster
Mrs M Thomas

Pwyllgor Apeliadau

Mrs G Hayward, Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod Parc Cenedlaethol
Cynghorydd RM Lewis, Cadeirydd Pwyllgor Rheoli Datblygu
Mr D Ellis
Cynghorydd P Harries
Cynghorydd D Rees

PENDERFYNWYD cadarnhau aelodaeth y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu, y Pwyllgor Cwynion a'r Pwyllgor Apeliadau fel y nodir uchod.

17. Diweddariad ar y cynlluniau ar gyfer Safle'r Parc Cenedlaethol yng Nghilrhedyn

Atgoffwyd yr Aelodau bod yr Awdurdod Parc Cenedlaethol wedi cytuno yn eu cyfarfod fis Chwefror 2016 i barhau i weithio gyda phartneriaeth o Coed Cymru a Tir Coed i ddod o hyd i ffordd newydd o ddefnyddio canolfan Cilrhedyn ac i leihau costau'r Awdurdod o redeg y ganolfan. Roedd y cynnig hwn wedi'i ategu gan gynllun busnes cychwynnol. Roedd y bartneriaeth wedi cymryd camau ymlaen o ran datblygu cynlluniau a chael grantiau i gynnal eu gwaith datblygu, yn enwedig o ran ariannu i alluogi penodi Swyddog Coed Cymru yn Sir Benfro, ac wedi cyflwyno adroddiad interim byr oedd ynghlwm wrth yr adroddiad i'r Aelodau ei ystyried.

Roedd yr Aelodau'n falch bod camau ymlaen yn parhau i gael eu cymryd ar y prosiect, ond o ystyried bod yr Awdurdod yn dal i ysgwyddo'r gost o



redeg Cilrhedyn, eu gobaith oedd y byddai cynnig mwy sylweddol yn cael ei gyflwyno gerbron cyfarfod mis Tachwedd o'r Awdurdod.

